

VOLUNTARY ACTION
GWEITHREDU GWIRFODDOL

VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL

Adroddiad Blynyddol 2018-19



DATGANIAD O FWRIAD

Cynyddu graddau, ansawdd ac effaith gweithredu gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful drwy gefnogi, cynrychioli a chynorthwyo sefydliadau'r Trydydd Sector a gwirfoddoli.

Creu newid drwy wella llesiant unigolion, sefydliadau a chymunedau.

GWELEDIGAETH

- Bod yn ganolbwynt rhagoriaeth ym Merthyr Tudful o ran darparu gwasanaethau i sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â'r Trydydd Sector a gwirfoddoli.
- Creu cymuned iach drwy helpu i ddatblygu sefydliadau i ddiwallu eu hanghenion, gwneud y mwyaf o gyfleoedd gwirfoddoli a rhannu ein gweledigaeth gyda'r holl randdeiliaid



**VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL**

Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Pontmorlais,
Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8UH
Ffôn: 01685 353900 • enquiries@vamt.net



www.vamt.net



Voluntary Action Merthyr Tydfil
Volunteer Centre Merthyr Tydfil



@VAMTtweets
@VAMTvolunteer
@CwmTafCC

Rhif Cofrestru Elusen 1118403
Rhif Cofrestru Cwmni 6058360



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**



Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales



RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG

Rydym yn falch o gyflwyno ail Adroddiad Blynyddol ar hugain Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful.

Bu'n flwyddyn heriol iawn yn ariannol i Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (GGMT). Golygodd effaith gronol y toriadau mewn cyllid craidd dros y deng mlynedd diwethaf a'r ffaith bod dau brosiect sylweddol wedi dod i ben ym mis Mawrth 2018 bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn. Penderfynwyd lleihau costau a fyddai'n sicrhau balans ariannol ar gyfer 2019/20. Yn ogystal â rhewi cyflogau staff a lleihau treuliau staff, roedd angen lleihau costau staff craidd hefyd a chanlyniad hynny oedd bod dau aelod o staff a fu'n gweithio i GGMT ers cryn amser wedi derbyn pecyn diswyddo gwirfoddol. Mae'n anochel bod hyn wedi arwain at leihau'r gallu i ddarparu swyddogaethau craidd GGMT.

Fodd bynnag, mae GGMT yn parhau i gefnogi'n haelodau ac mae boddhad cwsmeriaid yn parhau i fod yn uchel. Er gwaethaf y gostyngiad yng nghapasiti staff, mae'r galw'n parhau am ein gwasanaethau craidd, sef, cymorth gwirfoddoli, cymorth llywodraethu a chymorth cyllid. Mae ein partneriaid wedi parhau i gyllido'r Cydgysylltwyr Cymunedol ac amrywiaeth o gynlluniau grant gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith rhwydweithio'n parhau ar lefel leol a rhanbarthol gyda rhwydweithiau a digwyddiadau lleol yn dal i dderbyn llawer o gefnogaeth.

Mae GGMT yn parhau i gydweithio ag Interlink ac yn gweithio gyda'i gilydd ar weithgarwch rhanbarthol fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y prosiect cydgysylltwyr cymunedol y soniwyd amdano eisoes a'r cynlluniau grantiau. Mae GGMT wedi arwain ar weithredu'r amcan "Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Unigedd" yng Nghynllun Lles Cwm Taf. Bydd gwaith rhanbarthol yn datblygu ymhellach wrth i'r rhanbarth dyfu i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019/20.

Roeddem yn falch o gefnogi datblygiad menter newydd Parth Cymunedol Gurnos ac yn edrych ymlaen at ei weld yn datblygu dros y flwyddyn nesaf.

Fel Cadeirydd a Phrif Swyddog rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n parhau i fod yn sefydliad effeithiol. Dim ond gyda thîm o ymddiriedolwyr a staff ymroddedig y gallwn ni gyflawni hyn. Diolch iddynt am eu cymorth a'u gwaith caled.

Yn olaf, mae'n rhaid i ni fanteisio ar y cyfle i ddiolch i brif gyllidwyr GGMT am eu cymorth parhaus; sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Hefyd, diolch i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am eu cymorth parhaus.

Anne Roberts,
Cadeirydd



Ian Davy,
Prif Swyddog



FFEITHIAU A FFIGURAU

Nifer yr achosion o ddarparu cyngor/ cymorth i sefydliadau/ rhanddeiliaid

344

Nifer y gwirfoddolwyr a gynorthwywyd

72

Nifer y sefydliadau Trydydd Sector a dderbyniodd gyngor/ cymorth uniongyrchol

107

Nifer yr achosion o ddarparu cyngor/ cymorth i sefydliadau trydydd sector

174

Nifer y sefydliadau Trydydd Sector a atgyfeiriwyd i gymorth arbenigol

1

Cyfanswm y cyllid a dderbyniwyd gan sefydliadau Trydydd Sector yn dilyn cymorth

£140,371

37

Prosiectau a dderbyniodd grantiau drwy GGMT, cyfanswm o

£181,674

Nifer y cyfranogwyr mewn fforymau a digwyddiadau a drefnwyd gan GGMT

561

Nifer y cyfranogwyr mewn cyrsiau hyfforddi a ddarparwyd

74

Cyfanswm aelodau

285

UCHAFBWYNTIAU

Nod 1 - Galluogi sefydliadau trydydd sector i ddarparu gwasanaethau, gwella pob agwedd ar eu gwaith a bod yn gydnherth

- Darparwyd **cymorth Llywodraethu** manwl i 12 o sefydliadau ar faterion fel materion cyfansoddiadol, trosglwyddo asedau a chyfrifyddu ariannol. Roedd tri sefydliad angen cymorth penodol ar ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusenol. Roedd un sefydliad angen llawer o gymorth mewn ymateb i bryderon am faterion llywodraethu, diogelu ac ariannol a chyflwynwyd adroddiad ac argymhellion cynhwysfawr i ymddiriedolwyr yr elusen.
- Cyhoeddwyd pedwar copi o'r **cylchgrawn Inform**



- Ymwelodd 5,968 o ddefnyddwyr â gwefan GGMT gyda'r tudalennau wedi'u gweld 13,282 o weithiau. Mae gan gyfrif Twitter GGMT @VAMTtweets 1,725 o ddilynwyr. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 141 o ddilynwyr newydd a 350 o grybwylliadau. Mae gan gyfrif Facebook GGMT 396 o ddilynwyr/hoffwyr a chyhoeddwyd 175 o negeseuon
- Cyhoeddwyd 154 o bostiadau ar **flog Newyddion GGMT** – roedd yna 1,882 o ddefnyddwyr a 3,203 wedi gweld y blog
- Gweinyddwyd y **Cynllun Grantiau Capasiti Cymunedol** a'i hyrwyddo ymhlith holl aelodau GGMT ac Interlink. Derbyniwyd 50 o geisiadau. Dyfarnwyd cyfanswm cyllid o £90,445 i naw prosiect. Yn ogystal, dyfarnwyd £12,328 i brosiect penodol ar gyfer gofalwyr
- Gweinyddwyd **cynllun grantiau newydd ar gyfer prosiectau awtistiaeth** gyda saith prosiect yn derbyn cyfanswm o £68,521
- Cyfrannwyd at gais Cwm Taf gyfan am **gyllid Dementia o Gronfa Gofal Integredig** Llywodraeth Cymru. Cynigiwyd dwy elfen ategol ar gyfer darpariaeth trydydd sector - Cydgysylltydd penodol gyda chyfrifoldebau amlinellol ar gyfer datblygu Cymunedau sy'n Deall Dementia a chynllun grant (a weinyddir gan GGMT) i gyflwyno prosiectau newydd i ymateb i anghenion heb eu diwallu. O ran y Cydgysylltydd, cynhaliwyd trafodaethau gyda phartneriaid trydydd sector perthnasol a phenodwyd sefydliad arweiniol, Gofal
- Cefnogwyd cais newydd gan Gwm Taf i Lywodraeth Cymru am **Fuddsoddiad Cyfalaf o'r Gronfa Gofal Integredig**. Cafodd amrywiaeth o gynlluniau trydydd sector eu cynnwys, a'u cymeradwyo am gymorth. Cyfanswm gwerth y prosiectau oedd £100,000 ond yn anffodus nid oedd Llywodraeth Cymru'n barod i ddarparu'r cyllid ymlaen llaw, felly nid oedd hi'n bosib bwrw ymlaen â'r prosiectau. Cyflwynwyd sylwadau i geisio unioni'r sefyllfa hon
- Sicrhawyd £100,000 o gyllid y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer **Gwasanaethau Cyfeillio**. Cefnogwyd pedwar sefydliad, y Gwasanaeth Gwirfoddoli Brenhinol, Volunteering Matters, Valleys Kids ac Age Connects Morgannwg. Yn ogystal, sicrhawyd £10,000 o gyllid ychwanegol i alluogi gwasanaeth **Camau Cadarnhaol y Groes Goch Brydeinig** i barhau'n ddi-dor, ac maent wedi sicrhau cyllid cynaliadwy ers hynny ar gyfer y prosiect drwy ffynhonnell arall
- Darparwyd cyrsiau **hyfforddi** ar Ddiogelu, Ceisiadau Gwell, Cymorth Cyntaf ac Iechyd a Diogelwch
- Aseswyd ceisiadau am **gynllun grant Treth Tirlenwi, Cefnogi Trydydd Sector Cymru** ar gyfer y ddau gylch ymgeisio yn ystod y flwyddyn
- Cynhaliodd **Y Gronfa Loteri Fawr** gymorthfeydd misol yn GGMT a gafodd ymateb da, gyda'r nod o gynyddu nifer ac ansawdd y ceisiadau o Ferthyr Tudful
- Mae porth **Cyllid Cymru, Cefnogi Trydydd Sector Cymru** ar waith ac wedi'i hyrwyddo i'r trydydd sector

Gwobrau'r Tlws Crisial



Reconnect 50 • Cyntaf



Fit and Fed • Trydydd



Cymdeithas Dai Rhondda • Ail

- Sefydlwyd **Cynghrair Tlodi Bwyd Merthyr Tudful** yn dilyn cais gan Rwydwaith Tlodi Bwyd De Cymru. Roedd yr holl landlordiaid cymdeithasol lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn rhan o hyn a chynhaliwyd gweithdy gan Food Sense gyda 12 o'r sefydliadau a gynrychiolwyd
- Cefnogwyd **Ymddiriedolaeth Gymunedol Merthyr Tudful** a ddyfarnodd grantiau bach gwerth £3,180 i 11 o sefydliadau lleol. Gweithredodd GGMT fel yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Ym mis Hydref, penderfynodd staff GGMT drefnu digwyddiad codi arian yn eu hamser eu hunain a chodwyd bron i £1,200 i'r Ymddiriedolaeth
- Cyfrannwyd at y gwaith o gynnal **Gwobrau Tlws Crisial Cwm Taf** sy'n cydnabod y cyfraniad mae sefydliadau trydydd sector yn ei wneud at lesiant. Daw'r broses hon i benllanw gyda seremoni wobrwyo a derbyniodd tri sefydliad wobrau ariannol, cyfanswm o £2,250, gyda'r enillydd cyffredinol yn derbyn tlws "crisial" hefyd
- Cydweithiwyd ag Interlink i hwyluso **Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Cwm Taf**. Canolbwyntiodd digwyddiad mis Gorffennaf ar unigrwydd ac unigedd a digwyddiad mis Rhagfyr ar blant a phobl ifanc
- Cefnogwyd y **Ffair Cyllidwyr** a drefnwyd gan yr AS a'r AC ym Merthyr Tudful. Cafwyd 7 o ymholiadau uniongyrchol yn y digwyddiad a dderbyniodd sylw wedyn
- Cynhaliwyd Sioe Deithiol **Gwirfoddoli Cymru** i hyrwyddo'r cynllun grantiau diwygiedig ar ran rhanbarth Cwm Taf. Daeth 20 o sefydliadau i dderbyn gwybodaeth am wneud ceisiadau i'r gronfa
- Cefnogwyd sefydliad i **ddatblygu ei systemau ariannol** a darparwyd cymorth gyda chyllidebau ceisiadau am grantiau. Ers hynny, mae wedi gwneud cais am grantiau sylweddol i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau llwyddiannus i bobl ifanc
- Cefnogwyd dau sefydliad i baratoi eu **cyfrifon blynyddol**
- Darparwyd **cymorth ariannol** o ddydd i ddydd i ddau sefydliad ar sail cytundeb ffurfiol
- Darparwyd **Prosiect Cymorth Digidol** a ddaeth i ben ym mis Mawrth. Bu 25 o grwpiau'n cymryd rhan yn y prosiect hwn ledled Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. O werthusiad y prosiect gwelwyd bod grwpiau'n gwerthfawrogi cymorth un-i-un yn bennaf. Cefnogwyd dau grŵp i gofrestru ar wefan Just Giving ac ar ôl derbyn cymorth mae un clwb ieuencid wedi llwyddo i gael £4371 o gyllid

Nod 2 - Cryfhau cynrychiolaeth a dylanwad sefydliadau trydydd sector

- Cynhaliwyd “**Bwrdd Crwn gyda Dawn Bowden AC**” a fynychwyd gan 21 o gyfranogwyr. Y digwyddiad hwn, a drefnwyd yn benodol ar gyfer y trydydd sector, oedd digwyddiad cyntaf ymchwil Dawn Bowden i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol. Cyflwynodd ei chanfyddiadau i Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol GGMT ym mis Tachwedd fel rhan o lansiad ei hadroddiad drafft. Cafodd dderbyniad da gan y gynulleidfa
- Hwyluswyd pedwar cyfarfod o'r **Fforwm Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant** a fynychwyd gan 101 o bobl
- Hwyluswyd dau gyfarfod o **Fforwm Sefydliadau Gwirfoddol Plant a Phobl Ifanc** gyda 26 o fynychwyr
- Datblygwyd y **Fforwm Iechyd a Llesiant** fel cyfuniad o'r Fforwm Gwirfoddol Plant a Phobl Ifanc blaenorol a'r Fforwm Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Fforwm newydd ym mis Rhagfyr ac mae dau gyfarfod wedi bod gyda 41 o fynychwyr
- Cyd-hwyluswyd y **Fforwm 50+** ym mis Ebrill gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. GGMT a drefnodd y siaradwyr a'r stondinau gwybodaeth ar gyfer y digwyddiad. Mynychodd dros 80 o bobl y digwyddiad a oedd yn llwyfan i drafod gyda'r cyngor ac aelodau'r cabinet a oedd yn bresennol. Yn yr un modd, cyd-hwylusodd GGMT ddigwyddiadau mis Medi, Rhagfyr a Mawrth gyda niferoedd tebyg yn bresennol
- Darparwyd sesiynau **Cyfeillion Dementia** i 181 o bobl. Maent wedi derbyn eu tystysgrifau gan y Gymdeithas Alzheimer
- Trefnwyd digwyddiad ymgysylltu ar **Strategaeth Trechu Tlodi Merthyr Tudful** i'r Trydydd Sector. Daeth 31 i'r digwyddiad a chyflwynwyd ymatebion ysgrifenedig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful



- Trefnwyd digwyddiad ar gyfer **Rhwydwaith yr Amgylchedd a Mannau Gwyrdd** a ganolbwyntiodd ar y cynigion ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd ac a fynychwyd gan 15 o bobl
- Trefnwyd digwyddiad o'r enw “**Strategy Schmategy**” mewn ymateb i sefydliadau'r trydydd sector yn dweud wrth GGMT nad oeddynt yn llwyr ymwybodol o wahanol strategaethau sector cyhoeddus a threfniadau partneriaeth ar sail lleol a rhanbarthol. Daeth 29 o bobl i'r digwyddiad
- Trefnwyd digwyddiad “**Sgwrs ar Ofalu**” i ailsefydlu llwyfan i ymgysylltu â gofalwyr a/ neu ddarparwyr gwasanaethau gofalwyr. Mynychodd 15 o bobl, yn cynrychioli gofalwyr, sefydliadau a phartneriaid statudol. O'r digwyddiad hwn, sefydlwyd **Fforwm Darparwyr Gofalwyr Cwm Taf** gyda chyllid gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i gefnogi'r Fforwm
- Arweiniwyd ar amcan “**Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Unigedd**” Cynllun Lles Cwm Taf sy'n adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf **Grŵp Cyfeirio Unigrwydd ac Unigedd** ym mis Medi a fynychwyd gan 24 o bobl. Lansiwyd arolwg yn dilyn y cyfarfod a derbyniwyd 58 o ymatebion. Mynychodd 24 o bobl ail gyfarfod y Grŵp lle cafwyd adborth o'r arolwg, tystiolaeth o waith ymchwil, yn ogystal â gweithdy ar ddatblygu cynigion. Yn dilyn hyn, paratowyd adroddiad a oedd yn crynhoi'r dystiolaeth, ffactorau llwyddiant ac argymhellion i'w cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r tri phrif argymhelliad yn cael eu gweithredu, sef, datblygu dull strategol ar y cyd o bresgripsiynu cymdeithasol, gwella gwasanaethau cyfeillio a datblygu cymorth a ddarperir gan y gymuned



Nod 3 - Gwella gwirfoddoli a llesiant drwy gyfranogi a gweithredu cymunedol

- Cafodd 72 o **wirfoddolwyr** posibl eu cyfweld. Mae hyn yn llai nag mewn blynyddoedd a fu a gellir priodoli hyn i'r gostyngiad mewn capasiti staff a bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi dyfarnu contract i ddarparwr arall sydd wedi golygu bod GGMT wedi colli cysylltiad uniongyrchol â chwsmeriaid y Ganolfan Byd Gwaith. Fodd bynnag, adnewyddwyd y cysylltiad gyda'r Ganolfan Waith tua diwedd y flwyddyn



- Mae 134 o unigolion o Ferthyr Tudful wedi cofrestru'n uniongyrchol ar wefan **Gwirfoddoli Cymru** yn ystod y flwyddyn

- Cefnogwyd 16 o sefydliadau'n uniongyrchol gyda phroblemau **recriwtio gwirfoddolwyr**
- Cefnogwyd 11 o sefydliadau gyda phroblemau **arferion da wrth wirfoddoli**
- Gweithiwyd gyda Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ddarparu **Cynllun Grantiau a Arweinir gan Ieuenctid**. Dyfarnwyd cyfanswm o £8,000 i naw prosiect
- Cynhaliwyd **Ffair Wirfoddoli** yng Ngholeg Merthyr Tudful. Daeth dros 20 o sefydliadau i'r ffair, gyda llawer o ymholiadau gan fyfyrwyr coleg, staff ac aelodau'r cyhoedd
- Cynhaliwyd dau ddigwyddiad allgymorth fel rhan o **Wythnos Gwirfoddolwyr**, un yn EE a'r llall yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful
- Parhaodd GGMT ac Interlink i gynnal **tîm o bump Cydgysylltydd Cymunedol** sy'n cefnogi pobl hŷn i ddefnyddio gwasanaethau cymunedol er mwyn cadw'n annibynnol a gwella llesiant. Mae pedwar o'r Cydgysylltwyr wedi'u lleoli'n lleol ac un yn canolbwyntio ar leoliadau gofal sylfaenol ledled Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Yn ystod y flwyddyn:
 - ◆ **cyfeiriwyd** 310 o unigolion i wasanaethau trydydd sector
 - ◆ datblygwyd a dosbarthwyd **12 bwletin misol** i dros 1000 o gysylltiadau



Ffair Wirfoddoli yng Ngholeg Merthyr Tudful

- ◆ darparwyd **71 o gyflwyniadau** i 261 o unigolion
- ◆ darparwyd **11 o sesiynau chwalu myth ffliw** i grwpiau cymunedol
- ◆ darparwyd **6 o sesiynau ymwybyddiaeth sgrinio serffigol** yn darparu gwybodaeth i bron 70 o bobl
- ◆ cefnogwyd **“Rownd Ward Rithwir”** yn wythnosol – gan ddarparu gwasanaeth atgyfeirio a chyfeirio i gleifion fel rhan o dîm amlddisgyblaeth. Atgyfeiriwyd neu cyfeiriwyd 46% o gleifion i sefydliad trydydd sector
- ◆ cefnogwyd/datblygwyd **17 o fentrau cymunedol newydd**
- ◆ atgyfeiriwyd **121 o bobl i raglenni hyfforddiant**, sesiynau Cyfeillion Dementia, cymorth cyntaf, hylendid bwyd
- Cefnogwyd y gwaith o weithredu **Parth Cymunedol Gurnos**. Cyfrannwyd at gynllunio a chynnal cyfarfod ymgynghori cymunedol a gynhaliwyd ym mis Hydref. Mae GGMT yn aelod o'r Grŵp Gweithredu newydd ac wedi cyflogi Swyddog Gwybodaeth a Chyngor i weithio yn yr Hyb Cymunedol o fis Ionawr ymlaen. Mewn amser byr mae'r swyddog wedi cefnogi 9 o unigolion trwy ddarparu cyngor/gwybodaeth uniongyrchol ac wedi trefnu bod pedwar sefydliad trydydd sector newydd yn dod i'r Hyb Cymunedol i ddarparu cyngor a gwybodaeth yn rheolaidd

Calon Las



DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL

(YN CYNNWYS CYFRIF INCWM A GWARIANT)

Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2019

	2019			2018
	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfanswm	Cyfanswm
	£	£	£	£
Incwm				
Rhoddion a chymynroddion	-	-	-	2,000
Incwm o weithgareddau elusenol:				
Grantiau a chontractau	18 7,328	498,676	686,004	1,340,531
Ffioedd rheoli	45,024	7,493	52,517	76,023
Incwm o weithgareddau masnachu eraill:				
Incwm rhent a llety	59,502	-	59,502	62,060
Costau ffôn a phost a ailgodwyd	2,753	-	2,753	4,507
Incwm hyfforddi ac ariannol	17,109	-	17,109	14,714
Incwm buddsoddi	2,218	-	2,218	1,699
Incwm arall	3,246	-	3,246	17,109
Cyfanswm incwm	317,180	506,169	823,349	1,518,643
Gwariant				
Gwariant ar weithgareddau elusenol	374,849	639,247	1,014,096	1,701,796
Cyfanswm Gwariant	374,849	639,247	1,014,096	1,701,796
(Gwariant)/Incwm Net am y Flwyddyn	(57,669)	(133,078)	(190,747)	(183,153)
Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd	2,722	(2,722)	-	-
Symudiad Net mewn Cronfeydd	(54,947)	(135,800)	(190,747)	(183,153)
Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen	594,802	177,624	772,426	955,579
Cronfeydd a Gariwyd Ymlaen	539,855	41,824	581,679	772,426

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion yn y flwyddyn.

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaus.

MANTOLEN

FEL AR 31 MAWRTH 2019

	2019	2018
	£	£
Asedau Sefydlog		
Asedau diriaethol sefydlog	261,838	282,125
Asedau Cyfredol		
Dyledwyr	105,209	244,333
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	370,195	558,910
	475,404	803,243
Rhwymedigaethau:		
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	155,563	312,942
Asedau Cyfredol Net	319,841	490,301
Asedau Nest	581,679	772,426
Cronfeydd		
Cronfeydd incwm anghyfngedig	539,855	594,802
Cronfeydd incwm cyfyngedig	41,824	177,624
Cyfanswm Cronfeydd	581,679	772,426

AELODAU BWRDD A STAFF

Aelodau'r Bwrdd

Anne Roberts	Cadeirydd
Helen Thomas	Is-gadeirydd
Paul Gray	Trysorydd
Brian Lewis	(tan 16 Tachwedd 2018 yna cyfetholwyd 4 Chwefror 2019)
Nicola Mahoney	
Maria Thomas	(tan 23 Gorffennaf 2018)
Huw Williams	(tan 16 Tachwedd 2018)
Ruth Hopkins	
Mark Ward	
Kayleigh Nor-Val	(o 16 Tachwedd 2018)
Michelle Jones	(o 16 Tachwedd 2018)
Amber Lewis	(o 16 Tachwedd 2018)
Suzanne Davies	(cyfetholwyd o 23 Gorffennaf 2018)

Aelodau Staff

Alison Harris	Swyddog Trydydd Sector (tan fis Mai 2018)
Carol Hindley	Rheolwr Gweinyddol a Chyllid
Claire Williams	Cydgysylltydd Cymunedol (o fis Medi 2018)
Deanne Rebane	Cydgysylltydd Cymunedol
Elaine James	Cydgysylltydd Cymunedol (tan fis Gorffennaf 2018)
Frances Barry	Swyddog Gwirfoddoli (tan fis Gorffennaf 2018)
Frances Barry	Swyddog Cynhwysiant Digidol Cwm Taf (o fis Gorffennaf 2018)
Hilary Edwards	Uwch Swyddog Datblygu
Ian Davy	Prif Swyddog
Karen Foley	Swyddog Gwirfoddoli (tan fis Mai 2018)
Laura Johnson	Swyddog Gweinyddol a Chyllid
Laura Johnson	Swyddog Gwirfoddoli (o fis Medi 2018)
Lisa Toghill	Swyddog Cynhwysiant Digidol Cwm Taf (tan fis Mai 2018)
Sharon Richards	Rheolwr Iechyd a Llesiant
Susan Broad	Cynorthwydd Clercol (tan fis Chwefror 2019)

Gwirfoddolwyr

Craig Hill
Susan Broad
Lisa Matthews